*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/06/2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown (01745 535286)** |
| Pwnc | **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r aelodau, sy'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r adroddiad blynyddol ar gael yn atodiad 1.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r aelodau. Mae'r adroddiad yn nodi gwaith y bwrdd yn ystod 2018/19.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Bwrdd Pensiwn Lleol, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**SYLWADAU'R BWRDD PENSIWN LLEOL**

4 Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfarfod ar 2 Mai 2019.

**GWYBODAETH**

5 Cafodd y gofynion llywodraethu newydd ar gyfer pensiynau eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethu mwy clir, gyda rolau wedi'u diffinio'n benodol, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, ac arferion gweinyddu sy'n cyd-fynd â rhai yn y sector preifat.

6 Fe wnaeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, ynglŷn â chreu pensiynau lleol a gweithredu'n barhaus, ddod i rym ar 1 Ebrill 2015. Roedd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATAGC) gytuno i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

7 Rôl a chylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru â'i waith fel rheolwr y cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon, a'i fod wrth wneud hynny yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol. Er mwyn gwella tryloywder, rhaid i ATAGC gyhoeddi adroddiad blynyddol ei Fwrdd Pensiwn Lleol.

8 Fel y nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys y canlynol:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- manylion meysydd pryder a adroddwyd neu a godwyd gan y Bwrdd, a'r argymhellion a wnaed
- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a allai fod wedi codi i aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y cafodd y rhain eu rheoli
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda Rheolwr y Cynllun
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd, ac anghenion hyfforddi a nodwyd
- manylion unrhyw dreuliau a chostau a fu ar y Bwrdd Pensiwn Lleol, ac unrhyw dreuliau a ragwelir yn y flwyddyn i ddod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad ydynt yn berthnasol |
| Cyllideb | Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei ariannu o gyllideb gyfredol Gwasanaethau Aelodau |
| Cyfreithiol | Cafodd y gofynion llywodraethu newydd ar gyfer pensiynau eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ystyrir nad oes angen delio ag unrhyw faterion oherwydd mae'r argymhellion yr un mor berthnasol i bob Aelod ni waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Rhaid i bob ATA gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol. |

# Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân
# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Adroddiad Blynyddol
# Bwrdd Pensiwn Lleol
# 2018-19

**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cefndir | 2 |
| 2. | Rôl a Chylch Gwaith | 3 |
| 3. | Cyfansoddiad ac Aelodaeth | 4 |
| 4. | Cod Ymddygiad a Pholisi Gwrthdaro | 5 |
| 5. | Gwybodaeth a Dealltwriaeth | 6 |
| 6. | Hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiynau ynghylch achosion o dorri'r gyfraith | 8 |
| 7. | Rhaglen Waith 2018-19 | 9 |
| 8. | Rhaglen Waith 2019-20 | 10 |
| 9. | Y Swyddogion Allweddol sy'n cefnogi'r Bwrdd Pensiwn Lleol | 10 |

## 1.0 Cefndir

Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd). Yn achos Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, rôl y Bwrdd yw cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- y rheoliadau perthnasol;
- unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- gofynion a orfodir gan y Rheolydd mewn perthynas â'r Cynllun; a
- sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon.

Mae disgwyl i'r Bwrdd gwblhau a helaethu'r trefniadau presennol sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r cynllun. Nid yw'n cymryd lle'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, ei nod yw gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r Awdurdod yn rhinwedd ei swyddogaeth fel rheolwr y cynllun.

Fe wnaeth Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, yn ymwneud â chreu a mynd ati i weithredu pensiwn lleol, ddod i rym ar 1 Ebrill 2015. Roedd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gytuno i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015. Yn y cyd-destun hwn, ystyr sefydlu yw bod rhaid i'r Awdurdod, fel Rheolwr y Cynllun, gymeradwyo creu'r Bwrdd a chytuno ar ei natur a'i gylch gorchwyl yn unol â'i gyfansoddiad. Nid oedd yn golygu bod rhaid i Fwrdd Pensiwn y Diffoddwyr Tân fod yn gwbl weithredol erbyn y dyddiad hwnnw.

Fodd bynnag, rhagwelir y dylai pob Bwrdd fod yn weithredol o fewn cyfnod rhesymol ar ôl 1 Ebrill 2015, ac yn sicr erbyn diwedd mis Gorffennaf y flwyddyn honno. Sefydlwyd Bwrdd Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Gogledd Cymru gan yr Awdurdod ar 20 Ebrill 2015, pryd y cynhaliodd ei gyfarfod cyntaf.

## 2.0 Rôl a Chylch Gwaith

Rôl a chylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod fel Rheolwr y Cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod, wrth wneud hynny, yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol. Mae'r Bwrdd yn gwneud hyn drwy adolygu'r polisïau a'r arferion y mae'r Awdurdod wedi eu mabwysiadau, yn eu gwirio yn erbyn y rheoliadau cymwys, yn ogystal ag yn eu cymharu ag achosion o arferion da mewn lleoedd eraill. Mae'r rôl fymryn yn wahanol o'i chymharu â'r Bwrdd (gwahanol) sydd â'r gwaith o oruchwylio trefniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan fod Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun nad yw'n cael ei ariannu ac nid oes iddo unrhyw agwedd fuddsoddi.

## 3.0 Cyfansoddiad ac Aelodaeth

Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cymeradwyo ac yn mynd ati bob blwyddyn i adolygu'r cylch gorchwyl ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân; mae copi o'r ddogfen ar gael drwy'r ddolen yma:

https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338870/cylch-gorchwyl-y-bwrdd-pensiwn-lleol-2.pdf

Er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynrychioliadol, rhaid i bob Bwrdd gynnwys nifer gyfartal o gynrychiolwyr y cyflogwr a chynrychiolwyr yr aelodau, gydag o leiaf bedwar i gyd. Yn ei gyfarfod yn Ebrill 2015, cytunodd yr Awdurdod i sefydlu Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gyda nifer gyfartal yn cynrychioli aelodau'r cynllun. I ddechrau, tair blynedd oedd cyfnod penodiad pob aelod neu hyd nes na fyddai'r aelod yn gymwys mwyach i fod yn aelod; diwygiwyd y cyfnod yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2018 er mwyn iddo gyd-fynd ag etholiadau'r cynghorau.

**Aelodaeth o'r Bwrdd Mehefin 2017-2020**

Cyflogwr:

- Tri aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru:
  Y Cyng.  Rodney Skelland,
  Y Cyng. John Brynmor Hughes
  Y Cyng. Bryan Apsley,
- Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy wedi'i enwebu)
- Trysorydd yr Awdurdod.

Cyflogeion:

- Dau gynrychiolydd o bob corff cynrychioliadol sydd â chysylltiad swyddogol ag ATAGC:
  - Undeb yr FBU - Parry Davies a Blythe Roberts tan fis Hydref 2018; Blythe Roberts a Duncan Stewart-Ball ers Tachwedd 2018.
  - Cymdeithas y Swyddogion Tân - Geraint Hughes a Paul Scott tan fis Hydref 2018; Geraint Hughes a Jane Honey ers Tachwedd 2018.
  - Cymdeithas Arweinyddion Tân - Richard Fairhead a Ruth Simmons.

**Cadeirydd y Bwrdd**

Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Richard Fairhead yn Gadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd, sef 2017-2019. Enwebwyd y Cadeirydd i sefyll ar Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd dair gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn.

## 4.0 Cod Ymddygiad a Pholisi Gwrthdaro

Fel Rheolwr y Cynllun, rhaid i'r Awdurdod baratoi a chymeradwyo cod ymddygiad i'w fabwysiadu gan y Bwrdd. Rhaid i'r cod nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan yr aelodau ac ymgorffori 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' (a elwir yn Egwyddorion Nolan). Mae aelodau etholedig a chyfetholedig yr Awdurdod yn cael eu llywodraethu gan god ymddygiad cynghorwyr. Mae'r cod hwn yn ofynnol i bob awdurdod lleol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, ac mae'n nodi'r safonau ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan unigolion fel cynghorwyr neu aelodau cyfetholedig. Hefyd, mae rhwymedigaeth cyfreithiol ar gynghorwyr i ddatgelu, mewn cofrestr sy'n cael ei chadw gan swyddog monitro'r awdurdod, rai buddiannau ariannol, fel y diffinnir mewn rheoliadau a wnaed dan Ddeddf 2011. Mae'r ddau ofyniad hyn yn gymwys i unrhyw aelod o Fwrdd sydd hefyd yn gynghorwyr ar awdurdod lleol. Nid ydynt yn gymwys i aelodau Bwrdd nad ydynt yn Gynghorwyr oni bai eu bod yn cael eu mabwysiadu'n benodol mewn cylch gorchwyl neu ddogfen bolisi arall i fod yn gymwys i aelodau'r Bwrdd. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2015, fe wnaeth Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gytuno i fabwysiadu Cod Ymddygiad yr Awdurdod i bob aelod o'r Bwrdd.

Heblaw am ddarpariaethau Cod Ymddygiad yr Awdurdod, mae'r diffiniad o 'wrthdaro rhwng buddiannau', ar gyfer aelodau'r Bwrdd, wedi'i ddiffinio yn adran 5(5) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 fel buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o niweidio gallu unigolyn i gyflawni swyddogaeth fel aelod o Fwrdd (er nad yw hynny'n cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n digwydd oherwydd bod yr unigolyn hwnnw'n aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân). Argymhellodd y Rheoleiddiwr Pensiynau fod yr holl awdurdodau gweinyddu yn sefydlu Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau ar gyfer gweithredu eu byrddau pensiwn lleol. Cytunodd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn briodol ar Bolisi Gwrthdaro manwl yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2015. Mae copi o'r polisi ar gael yn y fan yma:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337271/rheoli-gwrthdaro-buddiannau-polisi-301115.pdf

Ni ddisgwylir y bydd unrhyw wrthdaro arwyddocaol rhwng buddiannau, yn enwedig gan nad oes agwedd fuddsoddi i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Er hynny, bydd y swyddogion yn cymryd camau i ganfod, monitro a rheoli gwrthdaro yn unol â'r polisi.

**5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth**

Yn unol ag Adran 248A o Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i bob unigolyn sy'n aelod o Fwrdd Pensiwn Lleol fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- rheolau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân; ac
- unrhyw ddogfen sy'n cofnodi polisi ynglŷn â gweinyddiaeth y Cynllun ac sydd wedi'i mabwysiadu ar y pryd mewn perthynas â'r Gronfa.

Rhaid i bob unigolyn fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith mewn perthynas â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a allai gael eu rhagnodi.

Rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl, a lle bo modd rhaid iddo gefnogi holl aelodau'r Bwrdd i gael yr hyfforddiant hwnnw. Mae hyfforddiant ar gael ar-lein ar wefan y Rheoleddiwr Pensiynau, a rhaid i aelodau'r Bwrdd gyflawni'r hyfforddiant hwnnw.

Rhaid i'r Bwrdd gadw cofnodion priodol o weithgareddau dysgu aelodau unigol a'r Bwrdd cyfan. Bydd hyn yn gymorth i'r aelodau ddangos eu bod yn cydymffurfio, os oes angen, â'r gofynion cyfreithiol a sut maent wedi lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau mewn gwybodaeth.

Mae'n ofyniad statudol i gynnwys manylion yr hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen yr wybodaeth hon o bryd i'w gilydd ar asiantaethau eraill, megis y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Ceir amserlen isod o'r hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ystod 2018-19:

| **Dyddiad** | **Hyfforddiant** | **Yn bresennol** |
|---|---|---|
| 30/04/18 | Datrys Anghydfodau Mewnol<br><br>Treth a Chynllun yn Talus<br><br>Gofynion Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) | Cynrychiolwyr y Cyflogwr –<br>Y Cyng. B Apsley;<br>Y Cyng. J Rodney Skelland;<br>Y Cyng. J Brynmor Hughes.<br>Cynrychiolwyr y Gweithwyr -<br>R Fairhead PSTC, Cymdeithas Arweinwyr Tân;<br>P Scott a G Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân;<br>P Davies, Undeb yr FBU. |
| 10/09/18 | Dim | |
| 18/02/19 | Fy Mhensiynau Ar-lein | Cynrychiolwyr Cyflogwr –<br>Y Cyng. B Apsley;<br>Y Cyng. J Rodney Skelland;<br>Y Cyng. J Brynmor Hughes;<br>K Finch, Trysorydd.<br><br>Cynrychiolwyr y Gweithwyr -<br>R Fairhead PSTC, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân;<br>G Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân;<br>B Roberts; Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU. |

## 6.0 Hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiynau am achosion o dorri'r gyfraith

Yn unol ag adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i rai unigolion hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiynau cyn gynted ag y bo modd yn rhesymol ac ymarferol pan fo gan y unigolyn hwnnw achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- ni fu, neu nid oes, cydymffurfiaeth â dyletswydd sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac sy'n cael ei osod gan, neu yn rhinwedd, deddfiad neu reol y gyfraith; ac
- mae methu â chydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn gymwys yn uniongyrchol i bob unigolyn sy'n aelod o'r Bwrdd. Felly, rhaid i'r Bwrdd gael trefniadau effeithiol ar gyfer cyflawni ei ddyletswydd i hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith.

Yn ystod 2018/19, tynnwyd sylw'r Bwrdd at un mater rheoleiddio oherwydd canfuwyd nad oedd yr Awdurdod wedi llwyr weithredu Gorchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2014. Mae Rheol B5C yn mynnu bod yr Awdurdod yn penderfynu a yw am drin tâl oherwydd dyrchafiadau dros dro fel Budd Pensiwn Ychwanegol. Nid oedd yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn, ond fe wnaeth hynny yn ôl-weithredol ym mis Gorffennaf 2018.
Roedd y mater yn dyddio'n ôl cyn creu'r Bwrdd, ac mae cyfarfodydd cyfredol yn cynnwys gwybodaeth am newidiadau rheoleiddiol i sicrhau y bydd y Gwasanaeth yn cydymffurfio â newidiadau rheoleiddiol yn y dyfodol. Nid oedd y mater hwn yn cyrraedd y trothwy sy'n gofyn am adroddiad ffurfiol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

## 7.0 Rhaglen Waith 2018-19

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd dair gwaith, sef ar 30 Ebrill 2018, 10 Medi 2018 ac 18 Chwefror 2019.

Fel gofyniad statudol, mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth reolaidd am ddeddfwriaeth.

**Cyfarfod y Bwrdd – 30 Ebrill 2018**

- Datgan buddiant
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Adolygu a Chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl
- Adroddiad i roi'r diweddaraf am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- Hyfforddiant – fel uchod
- Y Gofrestr Risgiau
- Adroddiad am Dreth a Chynllun yn talu
- Cytuno ar Adroddiad Blynyddol 2017-18
- Y diweddaraf gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun

**Cyfarfod y Bwrdd – 10 Medi 2018**

- Datgan buddiant
- Cyfarfod y cyfarfod diwethaf
- Adroddiad i roi'r diweddaraf am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- Y Gofrestr Risgiau
- Adroddiad i roi'r diweddaraf am Gronfa Bensiwn Dyfed
- Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2014
- Adroddiad Strategaeth Gyfathrebu

**Cyfarfod y Bwrdd – 18 Chwefror 2019**

- Datgan buddiant
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Adroddiad i roi'r diweddaraf am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- Adroddiad i roi'r diweddaraf am Gronfa Bensiwn Dyfed
- Hyfforddiant – fel uchod
- Y diweddaraf gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun

Mae mwy o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion y cyfarfodydd uchod o'r Bwrdd. Gellir eu gweld drwy'r ddolen yma: http://www.nwales-fireservice.org.uk/fire-and-rescue-authority/local-pension-board/?lang=cy

## 8.0 Rhaglen Waith 2019-20

Mae Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith a gaiff ei hystyried ymhob cyfarfod. Nawr fod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub fel y bo'r angen.

Dyma'r Rhaglen Waith ar gyfer 2019-20:

- Adolygu'r Cylch Gorchwyl a chytuno ar Adroddiad Blynyddol 2018-19
- Datblygu dogfen arweiniad ar gwestiynau cyffredin i'r aelodau, gan gynnwys gwybodaeth am faterion perthnasol megis y Datganiadau Buddion Blynyddol.
- Cytuno ar, a datblygu, cynllun gweithredu ar gyfer adolygu cyflog pensiynadwy yn dilyn dyfarniad diweddar gan yr Uchel-Lys
- Datblygu, cytuno a monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Gweinyddwyr y Pensiwn (Cronfa Bensiwn Dyfed)
- Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi gydag aelodau'r Bwrdd, a chytuno ar raglen hyfforddi yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf a chyflwyniadau ar faterion cyfredol yn y maes pensiynau, fel y bo'r angen
- Adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau
- Ystyried goblygiadau, ac ymateb i ymgynghoriad y llywodraeth ar y cap ymadael
- Darparu'r wybodaeth ddiwddaraf i bob cyfarfod am faterion rheoleiddio sydd yng nghylchlythyrau Llywodraeth Cymru a bwletinau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.
- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Bwrdd Cynghori'r Cynllun (Cymru)
- Arolygon Pensiwn Blynyddol ac ymgynghoriadau (os ydynt yn berthnasol).

## 9.0 Y Swyddogion Allweddol sy'n cefnogi'r Bwrdd Pensiwn Lleol

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) – Helen MacArthur
Rheolwr Pensiynau - Julie Brown